# SL(5)130 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)

## Cefndir a Phwrpas

Dyma'r ail Orchymyn sy'n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru at ddiben cynnwys mewn cynnig Cyllidebol yr adnoddau y disgwylir eu defnyddio gan y cyrff hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef bod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddewis o dan adrannau 126A(9) a 126A(10) ar y weithdrefn i'w dilyn, a dewiswyd y weithdrefn negyddol. Mae'r weithdrefn honno i'w gweld yn briodol (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

## Y Goblygiadau yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2017. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt rhagoriaeth uchod.